Cyfres yr 20fed Ganrif

RHYDDID GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 18. Rhif 8.] AWST, 1918. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Bywyd Cyflawn.
Y Falwoden.—T.O.W.
Casgliad o Emynau a Thonau.—Adolygiad.
O Faes y Frwydr.—Parch. D. Cellan Evans.
Hiwmor mewn Llenyddiaeth Gymraeg.
Sarnicol.
Cael a Rhoi.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.



Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis ; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

D.D., Gorseinon ; J J., Union Road, Llundain ; M.L., Llandyssul ; D.M.D., Aberaman ; J.J., Aberayron ; Miss J., Tregaron ; Miss D., Lampeter ; D.J., Llanwnen ; Mrs. E., Tregaron ; R.Ll., Aberdare ; Mrs. D.J.T., Cribyn ; Dr. J., Llanybyther ; Miss L., Dowlais ; L.J., Bedlinog ; Miss J., Gelliaur ; Mrs. P.J., Llanover ; J.E., Nantymoel ; D.J., Clydach Vale ; J.J., Glyniscoed ; Mrs. J., Maesycrugiau ; R.G.D., Blaenrhondda ; W.W., Cefncoed ; D.E.B., Llwyn Einon ; Parch. W.J.P., Porthcawl ; J.D., Cilie Aeron ; J.G.J., Cwrtnewydd ; P.C. E.T., Llangeitho ; Mrs. D., Dolbante ; Miss J., Pontsian ; Parch. T.M.P., Middletown ; Mrs. W.J.D., Lampeter ; J.R.T., Pontshan ; Mrs. E., Talgarreg ; Mrs. J., Llandilo ; Mrs. D., Llansawel ; Parch. E.D.P.E., Bury ; H.W.H., Merthyr ; Parch. S.E.B., Crumlin ; J.H.E., C. N. Emlyn ; D.J.G., Ferndale ; F.J.J., Bangor ; Mrs. J.D., Llanwnen ; Dr. D.J.D., Aberystwyth ; D.D., Felinfach ; Mr. J., Tregaron ; Mrs. E., Aberdare ; D.C.J., Ceinewydd ; R.T., Laugharne ; Parch. J.H., Bukenhead ; Inspector T., Ferndale ; D.D., Gwarcefel Arms ; Mrs. W., Capel Dewi ; D.J, Abergorlech ; J.T.J. (A.S.) ; D. & E.T., Lampeter ; D.D., Gwardafolog ; J.E.E. (M.P.S.), Llundain ; H.H., Birmingham ; E.J., Pengam ; W.Ll., Felinfach ; Parch. D.J.E., Chester.

Mourning Cards . . .

Neatly executed.

A Speciality in Portrait Printing.

Samples sent on application.

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD. AWST, 1918. [CYF. XVIII. RHIF 8.

AR EDYN FFYDD.

ADGOFION GORFFENNAF.

Gorffennaf 1. Brwydr y Boyne—1690—lle'r enwogodd y Cadben David Jones, Llwynrhyd, ei hunan. Mae iddo hanes dyddorol. Efe ysgrifennodd hanes Bywyd y Brenin William III.

Gorffennaf 4. Canmlwyddiant Annibyniaeth yr Unol Dalaethau.

Gorffennaf 11, 1878, y ganwyd William E. Forster, y Quaker dall, aelod enwog o Gabinet Mr. Gladstone. Iddo ef, yn bennaf, y mae gennym i ddiolch am Fesur Addysg 1870. Darfu i ferch iddo i guro y Senior Wrangler, yn Cambridge.

Gorffennaf 14. Dinystr y Bastille, yn Ffrainc—1789. Mae'r 'Chwyldroad yn Ffrainc' yn un o'r pethau mwyaf cynhyrfus yn hanes y byd. Cyrhaeddodd ei ddylanwad yn mhell. Nid oes braidd gilfach na glan yn Nghymru lle na theimlwyd ei effaith.

Gorffennaf 14, 1791. Cynhaliwyd Gwledd fawr yn Birmingham i ddathlu coffa Dinystr y Bastille, gan yr Anghydffurfwyr yn bennaf. Aeth yr Eglwyswyr yn ynfyd, a chasglasant ynghyd yn dyrfa luosog, gan rodio'r heolydd yn fyddin rwysgfawr, ac yn gwaeddi, '*Church and King in danger*,' nes creu terfysg ofnadwy, yr hwn a barhaodd o ddydd Iau hyd dydd Sul. Dinystriasant dy Dr. Priestley, llosgasant ei bapyrau gwerthfawr, a gwasgarasant ei lyfrau yn yr heolydd i bob cyfeiriad. Yr oedd cyfaill wedi rhybuddio Dr. Priestley i gadw i bant yn ddigon pell, ac fe wnaeth. Dyma'r adeg y cyfansoddodd ei bregeth '*On the Duty of Forgiving Injuries.*' Fel y gwyr y darllennydd, ond odid, gorfu i'r Dr. yn ddiweddarach ymfudo i'r Amerig i ddianc erledigaeth, ac i derfynu ei ddyddiau mewn heddwch (1733—1804).

BYWYD CYFLAWN.

"Ceisio mwy o fywyd wnawn,
Ceisiwn am y bywyd llawn."

MAE rhywun yn yr Hen Lyfr wedi dweyd fod ffordd troseddwyr yn galed. Wrth "droseddwr" golyga un yn gweithredu'n groes i ddeddfau moesoldeb—un yn gwneud yr hyn nad yw yn iawn. Sylwer eto ar y geiriau—fe ddywed fod *ffordd* y troseddwr yn galed; nid yw yn son am ei diwedd, ei dynged yn y dyfodol. Credai fod y caledwch, y trwbwl, y poen yn deilliaw yu union o'r drwg, a hynny yn wastad ac yn mhob man, yn debyg fel mae'r gwres yn deilliaw o'r fflam.

Mae rhai pobl yn tybio'n wahanol. Gellir meddwl mai eu tyb yw, oni bae deddfau'r wlad, y gallai fod yn bleser digymysg i wneud yr hyn a fynnwn, i wneud yr hyn nad yw yn iawn. Tybiant fod y gair "iawn" yn cario gydag ef, fel rhan o'i ystyr, y meddylddrych o rywbeth y "dylem" wneud, rhywbeth nad ydym yn caru ei wneud, rhywbeth yn groes i'n teimladau. Nid oes amheuaeth nad yw y bobl hyn yn camsyniad, ac yn camsyniad yn beryglus. Da fydd inni geisio deall sut mae'r fath gamsyniad wedi dechreu.

Mae eisiau inni sylweddoli mai y pethau nad ynt iawn yw'r pethau mewn gwir sydd yn niweidiol i bawb. Yn gynnar neu yn ddiweddar, mewn llawer dull a modd, tueddant i gadw'r byd yn ol yn y mannau hynny lle mae mwyaf o eisiau help i'w yrru yn mlaen.

Llywodraethir yr anifail gan "reddf." Hynny yw, fe wna yr hyn y tueddir ef i'w wneud; neu os na wna, bydd hynny o achos ofn, neu fod rhyw allu cryfach wedi ei rwystro. Nid oes gan yr anifail yr un dychymyg am iawn nac aniawn.

Ambell bryd gellir sylwi ar rai pethau a barant inni feddwl fod gan rai anifeiliaid ryw amgyffrediad o'r iawn a'r aniawn—yn neillduol anifeiliaid dof, anifeiliaid sydd wedi arfer cymdeithasu a dyn. Gwelwn y ci, er enghraifft, ambell waith, yn ymddwyn fel pe bae arno gywilydd am yr hyn a wnaeth. Ond yr hyn a olyga yw ei fod wedi gwneud rhywbeth nad yw ei feistr yn gymeradwyo, ac ofna ei anfoddloni. Cwyd allan o deimlad ei serch personol, peth gwahanol i'r teimlad o iawn ac aniawn. Gall serch personol fod yn beth da neu ddrwg, fe ddibynna'n gwbl ar y person y teimlir serch tuag ato.

Pan yn delio a dyn, hyd yn oed y mwyaf anwaraidd, cawn bethau yn wahanol iawn. Cawn fod *Cydwybod* wedi ei eni, fel y gellir adnabod yr *iawn* a'r *aniawn*. Cawn ffurf uwch o serch—cydymdeimlad deallus—yn dechreu dylanwadu ar fywyd a buchedd. Cawn un math o garitor yn cael ei alw yn *dda*, un arall yn *ddrwg;* a chredir nad oes un gwahaniaeth arall yn mhlith dynion mor bwysig a hwn; a dylem helpu ein gilydd i ddeall ac i deimlo gwerth y pethau

mawr a phwysig a olygir wrth y geiriau iawn, aniawn, cydymdeimlad, da, drwg.

Beth olygwn wrth weithredoedd iawn ac aniawn? Mae gweithredoedd yn iawn os gwnant ni'n ddedwyddach *ac yn well*, ac felly i helpu'r byd i gyfeiriad cydgordiad, y pethau hyn y dylem eu gwneud; y pethau nad ynt iawn, maent yn lleihau ein dedwyddwch ac yn cadw'r byd yn ol.

Mae'r ddau air hyn yn bwysig, "dedwyddach," "gwell." Bydd gan bob dyn ryw fath o syniad am ystyr y ddau air; ond ceisiwn olwg mwy clir arnynt. Nid yw dedwyddwch yr un peth a phleser. Mae pleserau'n mynd a dod; maent yn ddiflannol, ac yn dibynnu'n hollol ar yr hyn fyddwn yn wneud neu yn feddwl ar y pryd. Os byddwn yn meddwl am y fath bleserau a bwyta, yfed, gweithio, gorffwys, gallwn weld fod hyn yn wir. Parhant cyhyd ag y bydd y rhywbeth arall yn para, a phan dderfydd hwnnw derfydd y pleser.

Mae pleserau yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth eu gilydd. Mae'r math o bleser yn dibynnu ar y math o fywyd; po ore fo'r bywyd, gore fydd y math o bleserau a deimlir. Ni all pleserau'r ffwl byth fod mor dda ag eiddo y dyn o garitor a deall uchel. Meddylier am un a wyddom ei fod yn arwr, ni waeth pa un ai ar faes rhyfel neu ar faes bywyd cyffredin, bywyd sy'n mynd yn mlaen bob dydd. Fe welir ei fod yn teilyngu'r enw am ei fod yn cael ei ddedwyddwch mewn bod yn gysurus, neu yn mwynhau ei hunan, yn unig mewn gweithredoedd ardderchog a chanmoladwy, y rhai, er iddynt ei amddifadu o lawer pleser, a ddygasant iddo ei ddedwyddwch. Y gwir yw nad oes yr un math o ddedwyddwch yn deilwng o'r enw, oddieithr y dedwyddwch o ddyfod yn well dyn.

Pan ddywedir fod rhywbeth yn dda, golygir ei fod yn dda "i ryw bwrpas." Mae darn o bren yn dda i unrhyw bwrpas y gellir ei osod. Mae y llew, y blaidd, yr eryr a'r fwltur yn dda i'r math o fywyd mae natur wedi eu bwriadu. Daw hyn yn fwy clir pan soniwn am geffyl da, am gi da—da i'r gwasanaeth ddisgwyliwn oddiwrtho.

Da i beth, ynte, y dywedwn ni fod dyn. Dywedir am rai pobl nad ydynt dda braidd i ddim, ac eto fe ellid helpu y rhai hyn i fod yn well. Gofynwn eto beth yw cyflawn ystyr y cwestiwn—I ba beth y mae dyn dda? Mae yn dda i bobpeth y mae wedi ei addasu iddo. Mae defnydd neu bwrpas ein bywyd yn golygu yr oll o'r gore yr ydym yn alluog i fod, i wneud, neu i ddod, mewn corff, neu feddwl neu deimlad. Yr ydym wedi ein creu i hynny. Gall amgylchiadau ein rhwystro i sicrhau mwy nag ychydig o honno, ac er hynny yr ydym yn meddu'r gallu iddo. Gall dyn fod wedi gwneud yn ardderchog yng nghanol anhawsderau ei fywyd, er iddo fethu dwyn allan ei holl bosibiliadau i ddaioni. Y mae ynom y gallu at wir ddaioni, a dysgwylir inni wneud y *gore allwn* o honynt yn y man o'r byd lle y dygwyddwn fod.

Gwyddom y defnydd o'r peth neu'r person oddiwrth natur y peth neu'r person. Dywedwn y "dylai" awch y gyllell fod yn gyfryw fel y gall dorri. Pam y dylai? Am mai dyna i ba beth y mae

cyllell dda; dyna natur cyllell; dyna ei bosibiliad uwchaf a gore. Dywedwn am *Watch* y dylai gadw amser yn gywir. Pam? am mai dyna ei diben. Mae *Watch* dda yn actio i fyny i ofynion ei natur. Ond beth am ddyn? Fe "ddylai"—beth? Dylai gyflawni holl bosibiliadau uwchaf ei natur. Dylai fod yn ddyn; dylai fod yr oll a'r uwchaf y golygir wrth ddyn am mai dyna ei natur. Ni ddylai foddloni ar fod yn anifail, a dim ond hynny. Ond eto fe ddylai feddwl; heb hynny ni fydd yn dihysbyddu holl bosibiliadau ei natur. Mae ynddo allu i fod yn rhywbeth mwy nag ymenydd. Dywedwn y dylai fod yn "Fod Moesol." Pam? Am mai trwy fod yn fod moesol yn unig y bydd yn byw i fyny i holl gyflawnder ei natur. Dylai fyw bywyd mor uchel ac mor gyflawn ag sydd yn bosibl iddo; a dylai ei fywyd mewn cymdeithas a'i gyd-fforddolion fod yn gyfryw ag i'w helpu hwythau i fod yr un peth. Pam? am yr un Pam ag o'r blaen. Drwy hyn yn unig y dichon iddo gyrraedd cyflawnder mesur dynoliaeth.

Ni fydd yn ddyn yn ystyr uwchaf, dyfnaf y gair hyd oni fydd, hyd oni wna hynny. Ni fydd ond darn o ddyn yn unig cyhyd ag yr erys yn îs ac yn llai.

M.

Y FALWODEN.

Plentyn natur yw dyn a natur roes y syniad cyntaf iddo am *Camouflage*. Ewch am dro i'r meysydd i chwilio nyth ambell aderyn, ac edrychwch, os cewch afael ynddi, ar liw'r wyau ac ar liw plu'r aderyn. Ped aech yn agos i'r nyth caech weled yr aderyn yn ymddangos fel pe bai'n gloff. Cymharwch liw ambell anifail y gaeaf a'r haf, a chewch y gŵyr natur lawer mwy na dyn am *camouflage*, ond y mae popeth yn naturiol ganddi. Nid felly gyda dyn. Edrychwch ym myw llygaid rhywun ac ni bydd gennych amgyffred am ei gymeriad. Gynt, yr oedd dyn, a dweyd y lleiaf, yn *true to nature*, heddyw y mae *kultur* wedi rhoi *camouflage* iddo. Y mae pawb yn chware rhan. Y mae naturioldeb wedi diflannu. Amcan mawr bywyd ydyw cuddio hunan. 'S dywed y Sais y mae pawb mewn *pose* (neu swydd).

Gŵyr y bardd y bernir ei farddoniaeth, nid oddiwrth geinder y meddyldrychau, ond oddiwrth hyd ei wallt. Tebyg ydyw gyda'r swyddog, rhaid iddo ymddangos fel pe bai nef a daear yn pwyso arno. Cofus gennyf glywed am ddilledydd unwaith. Yr oedd y gwaith yn brin, ond er mwyn *camouflage*, datodai ac ail wniai yr un dilledyn, a thrwy ymddangos yn ddiwyd cae ddigon o waith. Yr un fath gyda'r pregethwr; ei ddull bregethwrol, ei wisg ddu, a'i ddawn bwysig a thawel sy'n cyfrif, ac nid ei genadwri. Y mae'r *top hat* yn bwysicach na'r pen sydd ynddi, y *frock-coat* na chalon bur, ac eithriad yw cyfarfod a nebun heb fod ffug a *sham* yn perthyn iddo. Ni cheir mo

hyn yn myd natur, ac iechyd i galon ac enaid yw gadael mwstwr a hymbyg, a throi i wrando cyfrinachau anian yn awel y bore rhwng y brwyn a rhedyn, a natur yn afradu'i haur ym melyn yr eithin, a'r banadl a meillionen Ysbaen. Crwydrais tros fryn a dol nes dod o hyd i'r *Butterwart. Parasite* fel y *Mistletoe* yw, yn byw ar arall, a gofynwn yn drist faint o *barasites* sydd yn ein byd ni heddyw, yn byw ar arall, ac arweiniodd hyn fi i sylwi ar yr '*elfennau dynol*' a ganfyddir yn natur. Hyd yn oed yn safonau isaf bywyd y mae yna ofal am y llwyth neu'r safon, a chanfyddir cydweithrediad ymhlith y morgrug a'r efync, ac o sylwi ar y morgrug yn gofalu am eu da (*aphides*) cytunwn ag Arglwydd Avebury, 'fod hyn yn enghraifft o bwyll neu ddoethineb dihafal ym myd yr anifail. Ar y llaw arall, y mae yna forgrug ar y cyfandir a gynrychiolant Rufain gynt. *Slave-drivers* ydynt, a phe cymerid eu caethion oddiarnynt, buasent farw o newyn yn hytrach nag ymdrechu. Dyma'r *unemployable* ymhlith creaduriaid.

O sylwi fel hyn ar y gwahanol *dypes*, naturiol ydyw galw llawer creadur i gof am eu bod yn delweddu cymeriad dyn, y ddafad a'r golomen ei ddiniweidrwydd, y cadno a'r sarff ei gyfrwysdra, y draenog ei bigau a'i daeogrwydd, y paun ei falchder, y wenynen ei ddiwydrwydd, y *drone* ei ddiogi; ond er syllu ar 'Basiant Bywyd,' credaf fod

Y Falwoden

yn delweddu cymeriad dosbarth helaeth.

'Diasgwrn ac od ei hosgo,—ydyw'r
Falwoden sy'n llusgo;
Pan fydd gwlith yn frith ar fro
Yw hud awr y ddidaro.'

Dyna ddarlun y bardd o honi, ac y mae gennyf innau reswm da dros ei chofio. Ar *allotment* bychan, tyfai bresych gwynion. Taflai'r byd ei huddigl a'i barddu arnynt, ond yr oedd calonnau'r bresych yn wyn, a chalon un yn wynnach na'r lleill, a naturiol oedd cymryd diddordeb ynddi. Un bore canfum hi a'i chalon wen wedi torri. Er fod huddigl a pharddu wedi methu'i niweidio, er fod yna fresych ereill, eto y fresychen wynnaf a niweidiwyd, ac nid oedd dim am dani ond beio'r falwoden. Hwyrach fod rhywun yn barod i'w hamddiffyn, ond adnabyddir ei llwybr oddiwrth y *slime* a edy ar ol, ac y mae yna lawer cymeriad yn cerdded trwy ardal a thrwy fywyd a gofir yn bennaf oherwydd ei *slime*.

Gwn fod y falwoden yn cludo'i thŷ gyda hi, ac mai '*hasten slowly*' yw ei *motto*; y mae yna ddosbarth o ddynion hefyd yn cerdded yn araf ac hamddenol a'u heiddo cyn brinned a'r cardotyn a'i *laces*, ond y maent bob amser yn barod i ymosod ar galon bur a glân, ac adnabyddir eu cerdded oddiwrth y *slime*. Nid yw'r *slime* yn niweidio neb. Nid yw'n pardduo neb, ond y mae'n brawf diymwad o'r falwoden, y mae'n dangos ei llwybr trwy fywyd. Clywir llawer o son am athroniaeth Eucken a Bergson, ac nid oes neb am amau'u dylanwad ar feddwl y byd, ond yr wyf fi am i bob un gerdded trwy fywyd a'i lygaid yn agored; yr wyf am i bob un dalu sylw i athroniaeth pethau cyffredin bywyd.

Cofia'r cyfarwydd am y bardd ieuanc Keats, a glwyfwyd yn farwol, gan yr '*Edinburgh Review*.' Nid oedd honno ddim amgen na *slime* y falwoden. Hunodd Ben Bowen yn ieuanc, ond y mae'n fyw ynghalon pob gwir Gymro, ond cerddodd y 'falwoden' trwy'i fywyd. Trowch i unrhyw lannerch lle ceir 'Beddau'r Proffwydi,' a chewch fod *slime* y falwoden arnynt.

Y *slime*, meddir, sy'n hwylusu'i ffordd trwy'r byd, a chredaf fod llawer dyn, yn anharddu gwlad a thref, sydd yn dringo i fyny, sy'n ymlusgo trwy fywyd ar y *slime* hwn. Hawdd fai ysgrifennu'u cofiannau, ond ni fyn y byd mohonynt, oherwydd nodir eu llwybr o'u mebyd i'w bedd

gan *slime*, a phan fyddwn yn brwydro dros gyfiawnder a thros ddynoliaeth, pan fyddwn yn son am bethau trymach y gyfraith nac anghofiwn y 'Falwoden' ac 'Athroniaeth y *Slime*.'

T. O. W.

CASGLIAD O EMYNAU A THONAU.

ADOLYGIAD.

Gyda chryn ddiddordeb a pheth pryder hefyd yr agorais am y tro cyntaf y gyfrol newydd o Emynau a Thonau at wasanaeth Cymanfaoedd Cerddorol Undodiaid Ceredigion, a chyda theimladau cymysg y darllenais y gyfrol drwyddi.

Cyfrol fechan ydyw, ac y mae'r pris yn uchel, ond nid wrth ei faintioli y mae penderfynu gwerth unrhyw beth. Fel y dywedodd un dyn wrth dalu'r offeiriad am ei uno mewn priodas â gwraig fechan, "ychydig o beth da geir am arian mawr."

Cafodd y pwyllgor gyfle ardderchog i ddethol dros bedwar ugain o'r tonau gore o bob man, a'u dwyn i sylw ac ymarferiad yn ein cynulleidfaoedd. O'r braidd y gellir dweyd iddynt wneud y gore o'r cyfle. I raddau helaeth, mater o chwaeth yw dewis tonau cynulleidfaol, ac y mae chwaeth yn amrywio; eto credaf fod yna rai ystyriaethau ddylent gael lle pwysig ym marn y rhai sydd yn ymwneud a chaniadaeth y cysegr. Dylai tonau cynulleidfaol fod yn urddasol, ac yn addas i fynegu teimladau o fawl a gweddi. Y mae llawer o donau a genir yn hollol anaddas i awyrgylch eglwys a chapel, ond nid yw holl bwyllgorau cymanfaoedd eto yn gwybod y gwahaniaeth rhwng canu cysegredig a chanu pen ffair. Gellir dweyd yr un peth am lawer o gyfansoddwyr tonau. Y mae ambell i dôn pen-ffordd wedi dianc i'r gyfrol hon. Eto, i'm tyb i, nid oes lle mewn cyfansoddiad byr fel emyn-dôn i ryw erthyl o *fugue*, i ymraniadau'r lleisiau o ran amser a geiriau, nac i ailadroddiad o frawddegau a llinellau. Gadawer y pethau hyn i'r anthemau, a chaed aelodau'r gynulleidfa gennad a gras i ganu tonau gwareiddiedig a'r holl rannau yn cydsymud yn urddasol mewn cordiau cryf, llawn, soniarus a defosiynol o ran ansawdd, o'r dechreu i'r diwedd.

Cyflwynaf felly i aelodau'r pwyllgor dan sylw fy marn mai eu dyledswydd hwy, er puro chwaeth mewn caniadaeth eglwysig a chysegredig, oedd ymwrthod a thonau fel Demster Newydd, Babel, Miles Lane, Job, Plasbach, Bugail Da, Llwyn, Aberteifi, a holl wehelyth y *ranters*. Tonau pen-chwiban yw rhai ohonynt; anthemau wedi marw yn y plisgyn yw'r lleill. A yw'r argraffydd wedi gwneud cyfiawnder a'r dôn Ceitho? Os felly, paham y ceir cord y Tonydd dair gwaith, a chord y Llywydd unwaith heb eu trydydd, y seithfed ar y Llywydd heb ei adferu, a chord gwan yn dechreu y drydedd llinell? Eto, yn y dôn Eiluned dilynir cord yr Is-lywydd yn ei ail wrth-ddull gan gord y Tonydd yn yr un gwrth-ddull. Yn nes ymlaen cyrchir pumed perffaith rhwng y sawd a'r alaw o gord yn ei ail wrth-ddull, drwy lam i'r un cyfeiriad ym mhob un o'r ddau lais. Brychau bychain yw y rhai olaf hyn, efallai; ond gwell fyddai bod hebddynt. Sylwais ar rai cyffelyb mewn tonau eraill hefyd.

Nid yw'r pwyllgor wedi bod yn

rhyw anturiaethus iawn. Yr oedd cyfoeth o donau newyddion ardderchog at eu gwasanaeth, mewn arddull hollol Gymreig, ac mewn cordiau newyddion, prydferth a beiddgar, yn nghasgliad Haydn Jones, "Cân a Moliant," a llawer o lyfrau eraill. Gormod o lynu wrth hen benllwydni sydd wedi bod.

Da gennyf weled yr emynau yn yr orgraff newydd, heb ond ambell wall yma a thraw. Drwg gennyf na chaniata gofod i mi nodi rhagoriaethau'r casgliad. Y maent yn lliosog. Y mae'r llyfr yn llawn gwerth y pris a ofynnir am dano, ac ychwaneg. Pryner ef, a defnyddier hefyd. Gallasai fod yn llawer gwell, yr hyn sydd wir am bawb a phopbeth daearol. Mae'n ddios y cred y pwyllgor y gallai'r erthygl hon fod yn llawer gwell hefyd. Fod ei barn yn hollol gywir yw argyhoeddiad eich gostyngedig was,

UNDODWR O GEREDIGION.

[Ein barn onest ninnau yw y gwna yr awdwr gondemnio rhai o donau goreu'r "Casgliad," megis "Babel," "Miles Lane," "Aberteifi," &c. A wna eraill draethu eu barn?—*Gol.*]

O FAES Y FRWYDR.

(Parhad.)

"Aeth o'i ing i fwth angof – i wely
Y Milwr i huno,
Heb rodres wedi'r brwydro,
Erys a chroes uwch ei rôf."

Dyna fel y canodd yr Is-Gadben Gwilym Williams — un o fechgyn athrylithgar Prifysgol Cymru, ac un o blant Sir Gaerfyrddin—cyn codi allan o'i ffôs yn Ffrainc i wynebu'r gelyn, ond i syrthio yng ngwres y drin.

Bellach, mae rhywun annwyl i bawb, ymron, yn gorffwyso mewn tir estron, "a chroes uwch ei rôf." Prudd oedd y galon wrth gerdded trwy ambell gladdfa yn Ffrainc, oblegid cofiem fod ymhob bedd obeithion disglair wedi eu cuddio, a siomiant wedi aradru calon rhyw dad, neu fam, neu chwaer, yn yr hen wlad.

Ond er dwys fyfyrdod, mud oedd angau. Eto, ni chawsai ei ffordd ei hun yn gyfangwbl. Yr oedd dwylaw Cariad wedi bod yn prydferthu ei lwybr anniben ar ei ol, ac nid oedd yr un bedd heb ei flodeuyn arno.

Mae Swyddfa Rhyfel hyd yn oed wedi methu peidio a bod yn ddynol, oblegid y mae wedi gorchymyn fod gofal neilltuol i'w gymeryd o'r beddau a'r mynwentydd. Felly y mae dynion—rhai o'n milwyr y rhan fynychaf—yn gofalu yn feunyddiol am y tir cysegredig lle y gorffwys gweddillion y dewr; ac nid dyledswydd deddf yn unig ydyw iddynt, eithr llafur cariad hefyd.

Nid unwaith bob blwyddyn y glanheir y beddau yn Ffrainc. Na, gwneir hyn fel y bo angen o hyd. Ni esgeulusir un bedd.

Bydd yn rhyw gymaint o gysur i dadau a mamau, pan y rhoddir

cyfleusdra iddynt fyned i Ffrainc ar derfyn y Rhyfel, weled beddau eu hannwyliaid wedi eu cadw mor lân ac mor drwsiadus. Y mae bedd y swyddog, y milwr cyffredin, ac eiddo y cyfaill—y gelyn, yn cael yr un sylw a gofal. Yng ngwyneb Angau nid yw yn gweddu i greu dosbarthiadau. "Heb rodres wedi'r brwydro," gorwedd pob un yn ei wely cul, a chroes bren uwch y fan, a'i enw a dydd ei farwolaeth wedi eu cerfio arni gan ryw "anghelfydd law."

Yr oedd mynwent fechan gerllaw i'r Caban yr oeddem yn llafurio ynddo. Rhyw gant, mwy neu lai, oedd nifer ei beddau y pryd hwnnw. Saeson a Ffrancod oedd yr oll ohonynt—oddigerth un; a rywsut, oblegid yr un bedd hwnnw, yr oedd gennyf fwy o olwg ar y fynwent honno nac ar ereill y gwyddwn am danynt. Bedd Cymro oedd dybiaswn, oblegid yn ysgrifenedig ar y groes fechan uwch ei ben yr oedd y geiriau canlynol:—"2nd Lt. R. P. Davies, 4th Batt. Royal Welsh Fusileers, killed in action, October 5th, 1915."

Wrth syllu arno, teimlem fod yna rywbeth cyfrin mewn iaith, a chenedl, a gwlad, er ini lawer pryd geisio diystyru'r pethau hyn wrth athronyddu ar y pwngc *abstract* 'dynoliaeth,' &c. "Cas gwr na charo'r wlad a'i maco," meddai'r hen ddiareb, a chredwn ei fod yn agos iawn i'w le. Nid diareb Jingo mohono—nage—ond y mae ynddo yn hytrach ryw wirionedd sydd yn cyd-weddu a phrofiad dyfnaf y galon. Gallwn sôn am *Citizen of the World*, *Humanity*, &c., a meddwl bod rhyw ragoriaeth mewn ymffrostio ein bod uwchlaw cenedl a gwlad, ac nad oes gan *sentiments* meddal ynglyn â hwynt unrhyw ddylanwad arnom ni; eto os nad oes rhyw gariad a serch at y "bwthyn di-addurn yn ymyl y nant," neu at y fangre hoff lle gwelsom gyntaf oleuni dydd, yn aros ynom, gallwn fod yn sicr ein bod wedi colli ein gwir ddynoliaeth.

Y gwladgarwr gore ydyw'r dyn gore hefyd. Ofer i neb sôn am barchu cartrefi ereill os na fedr yng nghyntaf barchu ei gartref ei hun; ac ofer i neb hefyd sôn am barchu gwlad neu genedl ddieithr os na fedr yng nghyntaf barchu ei wlad neu ei genedl ei hun.

Ond nid ein hamcan ydyw ysgrifenu ar genedlaetholdeb, eithr mynegu y profiad uwchben y bedd unig ar wastadedd Ffrainc.

Tir cysegredig fydd tir Ffrainc mwyach, a llawer darn ohono "am byth yn Gymru."

D. Cellan Evans.

HIWMOR MEWN LLENYDDIAETH GYMRAEG.

Tra thebyg ei gymeriad a'i helynt i'r bardd mawr o Fon oedd y bardd llai o Geredigion, Ieuan Brydydd Hir (ieu.) Swn hiraeth am a fu sydd yn ei ganiadau, gan mwyaf,

Y llwybrau gynt lle bu'r gân
Yw lleoedd y ddyllhuan.

Ond ym mysg y cerrig beddau a'r twmpathau gwyrddlas a gyfansodda'i weddillion llenyddol, cawn ambell flodeuyn gwyllt fel hwn:

[O Lythyr at Mr. William Morris].

Diau nad oes gennyf flas nag awch

yn y byd i ganu ; ond i ufuddhau i'r llywydd, mi fras-neddais rywbeth, herwydd fy mod yn rhwymedig iddo. Dywedwch wrtho fod yr awen gennyf ar dreugu, ac nad oes yng ngallu physigwriaeth ei hadfywio. Ac, mal y mae'r byd yn myned yr awron, ni waeth fod gan ddyn wilog arall na hithau. Yr oedd, gwir yw, yn llances landeg, bropr pan y cefais i hi gyntaf ; ond beth a dâl hynny ? Yr oedd ei chynhysgaeth i gyd am dani, ac ni feddai geiniog yn ei phwrs. Nid oedd neb o'r gwŷr mawr yn ei pherchi, a braidd nad oeddwn fy hun yn cael anair o'i phlegid ; ac am hynny mi ddywedaf am dani yn lle marwnad, fel y dywed Dryden :

Here lies *Awen*, let her lie ;
She is at rest, and so am I."

A thyma gwpled o'i eiddo i'r dyn wedi meddwi ac yna sobri :

Gorffwyllo, dawnsio mae dyn,
A'r diawl yn canu'r delyn.

Rhyw syniad o'r fath sydd yn dod i galon pob meddwyn trannoeth y ffair, ond nid yn aml y cafodd ei deimladau gystal mynegiant.

Gofod a ball i wneud dyfyniadau lawer o hiwmor Morusiaid Môn. Y mae gormod o sawr y ddeunawfed ganrif yng Nghywydd y Bais (Lewys Morus) i foddio chwaeth yr oes hon. Mae ffasiwn y bais yn newid o dô i dô ; ond nid oes fyth newid ar lendid

Morwynion glân Meirionydd.

A chytuna pawb mai 'crogi Lladron Grigyll' a ddylid, am dynu o honynt y llongau at y lan, ac yna yspeilio'r morwyr llongddrylliedig :

Gwych gan bobol onest lân
Oleuni tân a channwyll ;
Gwych gan wylliaid fod y nos
Mewn teios yn y tywyll ;
Gwych gen innau glywed son
Am grogi lladron Grigyll.

Nid yw'r bugailgerddwr penigamp o Ystrad Meurig chwaith heb lawer cyffyrddiad byw o ffraethineb. Onid gan Edward Richard y cafodd Ceiriog ei syniad am drwstaneiddiwch y bardd wrth garu, a'r oferedd o ddanfon pennillion i'r fun, "yn lle mynd a siarad ei serch.'

IWAN.

Pa beth a dâl canu a diddan brydyddu,
A'm defaid o'm deutu yn llamu wrth y llyn,
Ac ereill wrth garu a'u swyno a chusanau,
Yn denu'r fain aelddu, f'anwylddyn?

HYWEL.

Dyn beunydd dan bennyd wyf finnau'r un ffunud,
Heb obaith am iechyd i'm clefyd a'm clwyf,
Ond annerch lliw'r hinon a phinnau drain duon,
A danfon penillion pan allwyf.

IWAN.

Dibarch gan y merched a fydd dyn diniwed ;
Ni fynnant hwy glywed na gweled y gwr ;
Gwarth ydyw, gwrthodant, goegenod cydganant,
A chwarddant am lwyddiant ymladdwr.

Ac am un Sion Caron, fu'n tynnu cerrig i adeiladu Pont-rhyd-fendigaid, cân fel y canlyn, gan gellwair yn chwareus am ei hoffder at y *pot* a'r myglys :

Os cyll yr hen fachgen y ddiod o'i ddwy-en,
Hoff liwgar, mewn fflagen, a'r ddeilen o'i ddant,
Ni thâl ei forthwylion un geiniog, na'i gynion
A'i ffyddlon ebillion a ballant.

Ni wiw gado Llên y ddeunawfed ganrif heb son am Dwm o'r Nant, hen Gymro cadarn, cartrefol a garw, a *llawer* o'r digrif a'r direidus ynddo. Mae *llawer* o ystoriau am dano, y rhan fwyaf o honynt yn adnabyddus iawn. Er engraifft, adnabu rhywun ef ar ben ffair, ac anerchodd ef gyda'r llinell :

Dacw Tomos a dwy rês o fotymau

i'r hyn yr atebodd Twm ar unwaith :

Y teiliwr a'm twyllodd i gael tâl
am y tyllau.

Un tro, yr oedd yn dychwelyd o Ffair Dinbych, a gofynnodd rhyw hen wraig iddo : "Be oeddan nhw'n roi am y tatws yn Ninbych heddyw, Tomos Edwards?" "Sache," atebai Twm ar unwaith, gan fyned ymlaen mor sobr a phe buasai newydd ddweyd ei bader. Onid Twm o'r Nant hefyd ganodd yr englyn hwnnw i'r Beili?

Heliwr a boliwr yw'r beili—a labrwr
Hyd lwybrau trueni ;
Aeth ganwaith, do, werth gini,
Dew faedd d——l, i dy fol di.

Nid oes amheuaeth am athrylith Twm o'r Nant : mae ei Anterliwdiau fel yn tarddu o ffynnon anhysbydd, gyda chyfoeth o iaith, a chynghanedd a meddylddrychau, sydd o leiaf, yn ein hatgofio am ysgrifenwyr mawr y byd, er mai ffolineb fu ei gymharu a Shakespeare. Ni fedrwn alw i gof un *comic character* wedi ei greu fel y cyfryw ganddo, ond mae'r elfen ddigrifol yn rhedeg bron drwy ei holl waith, ochr yn ochr a rhyw gryfder garw sydd yn ymylu weithiau ar iselder chwaeth yn ol safon swch-syber "yr oes oleu hon." Nid hwn yw'r lle i ddangos cysylltiad yr Anterliwdiau a *sacred plays* y canol-oesoedd, ond gellir dweyd mai amcan Twm—o leiaf, ei amcan uchaf yn y "chwaraeon" hyn oedd diwygio ei gydwladwyr drwy ddal y drych iddynt gael gweled hagrwch eu buchedd-au. Fel pob dramodydd arall, gwna ddefnydd o'r *convex* a'r *concave mirrors* sydd yn mwyhau y brychau a'r gwahanol agweddau i faintioli chwerthinllyd. Fel y dywed ysgrifennydd yn y "Gwyddoniadur" am dano :

"Trwy gyfrwng ei ddychangerddi llymion, a'i Interliwdiau miniog, efe a geryddodd ac a gywilyddiodd gybyddion a chribddeilwyr crafangol, offeiriaid annuwiol a gormesol, a chyfreithwyr a goruchwylwyr anghyfiawn ei oes. Ac yr oedd ei arswyd yn fawr ar y wlad i gyd.

Fel yn ein dyddiau ni, yr oedd Dic-Sion-Dafyddiaeth yn uchel ei phen yn amser Twm o'r Nant, ac ymesyd arno yn ddi-drugaredd :

Mae balchder y Cymry ffolion,
I ymestyn ar ol y Saeson,
Gan ferwi am fynd, o fawr i fach,
I ddiogi'n grach fon'ddigion.

Gwelir fod Twm yn feistr ar y math ar hiwmor a eilw'r Sais yn *satire* : efallai'r campwr mwyaf a welodd Cymru erioed. A phan gofir cyhoeddusrwydd ei waith, gan y chwareid ef yn ysguboriau'r wlad, ac y gwerthid ei ganeuon ac y cenid hwy ar bennau ffeiriau, nid rhyfedd fod pobl yn crynu gan ei ofn. Nid oes dim a gasha pechadur yn fwy na gwlad yn chwerthin ar ei ben.

Fel hyn y dywed Gwalchmai am Dwm o'r Nant :

"Nid oedd byth yn ymddangos mewn prinder defnyddiau ; ac nid oedd raid iddo nyddu ei edafedd yn feinion, er mwyn estyn eu hyd ; yr oedd amrywiaeth ei ddyfeisiau yn ddiderfyn, ac yr oedd gwead cynghaneddol mor barod a rhwydd iddo, ag ydyw rhediad yr afon gyda'r goriwaered, er fod amryw o'i gylymau yn lled leicion. Yr oedd yr helyntion bydol a brofodd, yn ddiau, yn minio ei dduchan yn awchlym, ac yn tanio ei geryddon yn angerddol, ar orthrymwyr o bob gradd a dosparth.

(*I'w barhau*).

CAEL A RHOI.

Mae dau ddosparth y gellir eu dynodi wrth y *motto* yr actiant arno. "Beth gaf fi" ydyw *motto* un, a "Beth roddaf" yw *motto* y llall. Mae *cael* yn beth purion, ac ymddengys rhai fel pe mynnent gael popeth; ond mwy cymeradwy yw'r hwn a ddengys y parodrwydd i *roi*. Nid oes neb yn cymeradwyo'r yspryd—y cwbl i fi a'r gweddill i John fy mrawd. Y mae un a ystyriwn yn awdurdod ar iawn ymddygiad wedi dweyd mai Dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn. Dyna'r *motto* y dylai pob rhieni garu gweld eu plant yn actio arno. Dyma stori fach yn rhoi

Gwers Dda i'r Plant.

Un diwrnod daeth John Jones adref a chanddo bnmp o eirin gwlanog (*peaches*). Rhoddodd un i'w briod a phob o un i'w bedwar bachgen, ac yn awr, sylwer beth wnaeth y bechgyn a'r eirin. Gofynodd y tad iddynt drannoeth beth wnaeth a nhw. Yr iengaf: ni fues i'n hir cyn ei byta, ac O! 'roedd yn dda, ac o achos mod i am ragor cefais hanner un mam. 'Roedd hynny yn debyg i fam. Gŵyr rhai o honom am famau ereill a wnelent yr un peth. Wrth gwrs, fe wnaeth y gwr bach ddefnydd da o'i eirinen. Maent wedi eu bwriadu i'w bwyta.

Galwodd y tad ar y nesaf o ran oedran, a gofynodd, Beth wnest ti a'r eirinen? Wel, mi feddylis i petawn i'n ei byta, y byddai'r pleser ar ben yn fuan. Yr oedd yn eirinen arddechog; mi gwerthes hi, a phrynes whech o rai bach yn ei lle, a daru iddi nhw bara'n hir. Ac mi weda i chi, nhad, beth arall wnes. Mi weles fy mrawd bach yn towlu carreg ei un e i ffwrdd. Mi codes hi i fyny, ac mi torres hi, ac mi ges y cnewyllyn, ac mi bytes i. 'Nawr dyna beth oedd gwr bach gofalus. Yr oedd wedi dechreu cychwyn ar daith a allai ei wneud yn gyfoethog. Carai feddwl am yr arian a gafodd, ac am yr eirin bach a brynodd, a'r pleser a gafodd am hir amser. 'Roedd ganddo berffaith hawl i wneud fel y gwnaeth, ac nid rhaid i ni ei feio am fyta'r cnewyllyn oedd ei frawd bach wedi daflu ffwrdd.

Wel, am y trydydd mab. Ebe hwnnw: 'Roedd yr eirinen yn hardd i'r olwg ac yn felus i'r tafod, a meddyliais mor ardderchog fyddai cael coeden fyddai'n llawn o'r fath ffrwyth. Felly ar ol byta'r eirinen, mi gymraf y garreg, ac mi dodaf hi yn yr ardd, ac edrychaf arni'n tyfu yr haf nesaf. Dyna fachgen synwyrol, yn gweld yn mhell; nid yn meddwl yn unig am bleser y foment, ond am y pleser mwy a allai fod yn y dyfodol. Taflodd y gwr bach y garreg i ffwrdd, craciodd yr ail hi, a bytodd y cnewyllyn, ond yr oedd hwn yn ddoethach. Ebe fe: Gofalaf am y garreg, dodaf hi yn y pridd, dyfrhâf hi, ac yna pan fydd wedi tyfu yn goeden, fe fydd yna gymaint o eirin ag y gallaf fyta. Doeth peidio meddwl gormod am yr hyn ydym am ar y foment; gwell meddwl hefyd am y dyfodol. Pe cymrai'r ffarmwr ei wenith i gyd i'r felin i'w falu ni fyddai ganddo ddim i'w hau erbyn y flwyddyn nesaf; yn lle hynny fe geidw efe beth o'r gwenith gore i'w osod yn y pridd.

Yr oedd y tri bachgen wedi mwynhau'r eirin mewn gwahanol ffyrdd. Nid oedd yr un wedi gwneud dim allan o le ag ef. "Ond nawr," ebe'r tad, "beth sydd gan fy mab hynaf i'w ddweyd drosto ei hunan." Ei enw oedd Emwnt, a dyma ei ateb: "O, mi ddeyda wrthych. Pan oeddwn ar osod fy nannedd ar yr eirinen, cofiais yn ddisymwth am Bili Jones, sy'n mynd i'n hysgol ni. Mae yn glaf iawn, yn boeth ac yn sychedig. Aethum a'r eirinen iddo ef, canys

gwyddwn y gwnai les iddo. Ar y cyntaf ni fynnai ei dderbyn, ond dodais ef ar ei obenydd, a rhedais i ffwrdd." "'Nawr, fechgyn," ebe'r tad, pa un o honoch fwynhaodd ei eirinen ore." "Emwnt," ebe nhw bob un ag un llais. "Yr hwn ni chafodd ddim o flas yr eirinen a'i mwynhaodd yn oreu i gyd." Dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn.

Fe fwynhaodd y tri ieuengaf eu heirinen; ond yn hir ar ol iddynt hwy anghofio popeth am danynt, byddai Emwnt, lawer pryd yn cofio sut oedd yr eirinen wedi oeri tafod poeth y bachgen claf, fel yr oedd yn gorwedd yn y dwymyn yn ei wely. Yr oedd pleser y tri brawd bach yn bleser iddynt hwy eu hunain, nid oedd neb arall wedi cael rhan. Felly, yr wyf fi am wasgu arnoch y geiriau prydferth – Dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn. Pan fyddoch yn ddedwydd eich hunain ceisiwch wneud ereill yn ddedwydd hefyd. Pan ddaw rhyw fwyniant mawr i'ch rhan, chwiliwch am ereill i gael peth o hono; a phan glywoch am bobl mewn trallod a helbul, gwnewch bopeth a fedrwch i'w helpu a'u cysuro. Yr ydych yn cofio am yr adnod brydferth honno—"Yn gymaint a'i wneuthur o honoch i un o'r rhai hyn, fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch."

F. W.

MARWGOFION.

Mai 26ain, yn 66 oed, bu farw Rachel Thomas, Temple Buildings, Cribyn, ar ol hir nychdod. Genedigol ydoedd o ardal Cwrtnewydd, ond symudodd i Penrhiw (Dihewid) gyda'i rhieni pan yn ieuanc iawn. Yno y bu fyw hyd tua blwyddyn a hanner yn ol, pryd, oherwydd cyflwr anfoddhaol ei hiechyd, y rhoddodd hi a'i phriod y fferm i fyny, ac y daethant i fyw i bentref Cribyn, gan obeithio cael gwellhad; eithr yn hytrach fe'u siomwyd; ac er iddi barhau i fyned ychydig oddeutu hyd o fewn i ychydig ddyddiau i'w marwolaeth, eto ni chafodd fawr o esmwythyd oddiwrth yr anhwylder a'i blinai. Er ei dyfodiad i Penrhiw bu yn aelod ffyddlon o gynulleidfa Cribyn, a hyd y caniataodd ei hiechyd, mynychai'r addoliad yn rheolaidd. Gobeithiai y celai y fraint hon yn amlach ar ol dod o honi i fyw i'r pentref; eithr ni chafodd ei dymuniad yn hytrach o beth. Yr oedd yn un a fawr hoffid gan gylch cyfyng ei hadnabyddiaeth ar gyfrif ei rhodiad cywir, ac ar gyfrif llawer o linellau dymunol yn ei chymeriad. Gadawodd briod a nith (yr hon fu byw gyda hi ym Mhenrhiw er yn ieuanc), yng nghyd a chwaer ac amryw o berthynasau ereill, mewn galar ar ei hol. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Cribyn. dydd Iau canlynol, pryd y daeth tyrfa liosog yng nghyd i dalu iddi y gymwynas olaf. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle.

Mehefin 23, yn 65 oed, bu farw Isaac Lewis, Cross Inn, ger Llanwnen, ar ol byr gystudd, gan adael priod, tri mab, a pherthynasau ereill mewn galar ar ei ol. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Llanwnen, dydd Gwener canlynol. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. E. Glyn Edwards, Brynhafod; a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. L. Williams a D. Evans. Gwasanaethwyd yn yr Eglwys gan y Ficer.

GORFFENAF 9, bu farw o "Shell Gas Poisoning," yn 42 Casualty Clearing Station, Ffrainc, Signaller John Owen Jones. Yr oedd yr ymadawedig yn unig fab Mr. a Mrs. W. J. Jones, Brondeifi, Llandyssul, ac ar gyfrif cysylltiad hir a ffyddlon ei dad a'r YMOFYNYDD, carwn wneud y gofnod hon. Nid oedd John Owen ond yn ei ugain flwydd oed pan y syrthiodd yn aberth i raib y rhyfel hwn. Ni fagwyd bachgen mwy rhinweddol, mwyn, tyner, a ffyddlawn. Cafodd ysgrifennydd y llinellau hyn y fraint o'i adnabod o'i fabandod i fyny, a chredwn fod rhyfel yn gâs beth gan ei enaid, eto ymdaflodd a'i holl galon dros achos ei wlad. Dywedodd lawer gwaith ei fod yn barod i osod ei fywyd lawr drosti, a'r hyn yr oedd yn sefyll am dani. Cadwodd at ei benderfyniad yn ddistaw drwy y cyfan, a chredwn iddo lynu wrth yr uchaf a'r gore bob amser. Ni achwynai byth ar ei gyflwr ei hun, ond pryderai lawer am ei anwyliaid gartref. Cyn iddo ymuno a'r fyddin yr oedd yn y London City and Midland Bank, yn Llanelli, a phe bae wedi ei arbed, credwn y byddai yna yrfa lwyddiannus o'i flaen. Ond nid felly y bu. Cynhaliwyd gwasanaeth coffadwriaethol iddo ym Mhenybont, nos Sul, Gorffenaf 21, ac o barch iddo, a chydymdeimlad a'i deulu, yr oedd yr holl gapelau yn y dref yng nghau. Pregethwyd gan ei hen weinidog, y Parch. D. C. Griffiths, a chynorthwywyd gan y Parchn. T. Arthur Thomas, Ben Davies, a Ficer Llandyssul.

"Ai marw dd'wedais na, nid yw
Un fel tydi, yn marw'n hir;
Mae'r cof am danat yn rhy fyw,
A bywyd yn brydferthwch gwir."

GORFFENAF 10, yn 16 oed, bu farw Gwen Mary, unig ferch David ac Ann Watkins, 19, Lower Vaynor Road, Cefncoed. Pan glywsom am ymadawiad ein cyfeilles ieuanc daeth geiriau Job i feddwl yr ysgrifenydd, "Yr hyn a fawr ofnais a ddaeth arnaf, a'r hyn a arswydais a ddigwyddodd i mi." Bu yr ymadawedig yn nychu er ys rhai blynyddau, ac er ein mawr siomiant syrthiodd o'r diwedd yn ysglyfaeth i'r darfodedigaeth. Un o'r genethod goreu oedd Gwen Mary—un a dywynai heulwen lle bynag yr elai; ac yr oedd yr elfenau gwerthfawrocaf wedi eu cyfuno yn ei chymeriad tlws. Yr oedd hi gyda'r ffyddlonaf o bawb yn mhob rhan o wasanaeth yr eglwys, yn enwedig yn yr Ysgol Sul a chyda'r canu, a chaled fydd cymodi a'r golled am hir amser. Gadawodd i alaru yn ddwys ar ei hol dad a mam, a thri o frodyr heblaw llu o berthynasau a chyfeillion eraill, i'r rhai mae'n gysur cryf,

"Tu hwnt i ddu diriogaeth brenin
braw,
Ar heol aur cawn eto ysgwyd llaw."

Cymerodd y gladdedigaeth le y Sadwrn canlynol, pryd y daeth torf luosog yn nghyd i dalu y gymwynas olaf. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Carrara Davies, yn cael ei gynorthwyo gan Reithior y plwyf.

GORFFENAF 13, yn 69 mlwydd oed, Thomas Jones, Bryn Ffoshelyg, gynt Efail Tregroes. Yr oedd Thomas y Gôf, fel yr adnabyddid ef gan ei gydnabod, yn wr adnabyddus i gylch helaeth. Yr oedd ei efail, i ryw fesur, yn ganolfan bywyd cymdeithasol yr ardal. Hanai o deulu adnabyddus yn Nyffrynoedd Cerdin a Chlettwr, sef teulu Gilfachddafydd, a pherthynai iddo lawer o nodweddion a rhagoriaethau ei hynafiaid. Yr oedd yn wr deallus ac aeddfed ei farn ar bynciau gwleidyddol a diwynyddol. Yr oedd iddo air da gan bawb a'i hadnabyddai, fel y tystiai ei gynhebrwng lluosog. Claddwyd yr hyn oedd farwol ohono y dydd Mawrth dilynol, ym Mhantydefaid, pryd y gwasanaethwyd gan y Gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. E. O. Jenkins. Gadawodd mewn galar o'i golli weddw, mab, a merch, heblaw llu o berthynasau eraill.

MANION AC HANESION.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Dymunir cydnabod gyda diolchgarwch y casgliadau canlynol—

	£	s.	c.
Capelybryn	1	1	3
Rhydygwin	0	17	0
Capelygroes	0	10	6
Cribyn	0	10	6
Bwlchyfadfa	0	9	7
Llwynrhydowen... ...	0	7	0
Cefncoed	0	6	6
Brondeifi	0	6	0
Alltyblacca	0	5	0
Caeronen	0	5	0
Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar...	0	5	0

CRIBYN.—Y mae Mr. Daniel Llewelyn Jones, Frongelyn, wedi ennill Tystysgrif (Dosbarth Blaenaf) y London College of Music mewn *Pianoforte Playing* (Adran Elfennol). Y mae ei lwyddiant yn glod iddo ef ac i'w athraw medrus—Mr. Griffith, yr Ysgolfeistr.

BWLCHYFADFA.—'Nawn Mawrth, Mehefin 2, cafwyd gwledd arderchog o dê yn y lle uchod. Tê o waith gartref yn hollol ac yn gyfangwbl, ac mae diolchgarwch mawr yn ddyledus i'r boneddigesau ieuainc hyny fu mor llafurus yn parotoi danteithion ar ei gyfer. Yr oedd y tywydd yn bobpeth allesid ei ddymuno—prydnawn hafaidd, cynhes, ac felly daeth y bobl mewn oed a'r plant at eu gilydd yn gryno. Wedi tê cafwyd dwy awr o chwareu yng nghae Pantybryn. Ar ol gorffen y chwareu cafwyd tê wedyn, ac yna dwy awr o gyfarfod adloniadol a chystadleuol i orphen y dydd. Y cadeirydd oedd Mr. John Thomas, Pantcoch Villa, a'r arweinydd, Mr. Evan Davies, Crugeryr Uchaf. Aeth y ddau drwy eu gwaith mewn modd canmoladwy. Bu Mr. David Davies, Gwarcefel Arms, mor garedig a beirniadu y canu, adrodd, &c. Fel arfer, cyflawnodd ei waith yn hapus ac i foddlonrwydd pawb.

RHYDYGWIN.—Nos Fercher, Mai y 29ain, traddodwyd Darlith yn y capel uchod, gan y Parch. D. G. Rees, Gellionen. Ei destyn oedd, "Pererin Cymreig yng ngwlad yr Iesu." Yr oedd y darlithiwr yn ei hwyliau gore, a chafwyd ganddo wledd ragorol. Cadeiriwyd gan y gweinidog. Pasiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i Mr. Rees, ar gynygiad Mr. Saunders Davies, yn cael ei eilio gan Mr. D. Hughes. Gwnawd elw o £10 1s. 9c., wedi clirio'r costau argraphu. Anfonwyd y swm hwn i'r St. Dunstan's Institute for the Blind. Ysgrifenydd y mudiad oedd Mr. John Evans, Penwern, a'r Trysorydd oedd Mr. T. W. Jones, Aldergate. ——Llawen genym glywed eto am lwyddiant Miss M. A. Jones, Aldergate, yn y byd cerddorol. Pasiodd yn yr Arholiad cyntaf ar gyfer yr A.L.C.M., yn y dosbarth blaenaf. Mae eu llwyddiant o'r dechreu wedi bod yn un parhaol. Mae yn ferch ieuanc ffyddlon a gwasanaethgar yn ei chapel ac yn ei hardal yn y cyfeiriad hwn. Dymunwn iddi flwyddi lawer i'n gwasanaethu.

ABERTAWE.—Deallwn fod y Parch. Simon Jones, B.A., yn symud i gymryd gofal o'r Eglwys Undodaidd yn Nottingham, ar ddechreu Hydref. Dymunwn bob llwyddiant a phob dedwyddwch iddo ef a'i deulu yn eu maes newydd. Clywsom fod yr Eglwys hon yn un dra llewyrchus. Mae yn dioddef yn dost fodd bynag o achos y rhyfel. Mae 192 o'r bechgyn ar faes y gad.

LLANDYSSUL.—Mehefin 28, cynhaliwyd cyfarfod gwresog i roesawu adref Mr. Johnny Davies, King's Head, ynghyd a chyfaill arall. Yr oedd yr ystafell yn orlawn, a chafwyd cyfarfod brwdfrydig o'r dechreu i'r diwedd. Cafodd Johnny Davies ei glwyfo yn ardal Ypres, ac y mae wedi bod yn yr Ysbyty yn Norwich am ddeng mis, a bellach y mae wedi

ei ryddhau o'r Fyddin. Da was, da. Gwnaethost dy ran yn anrhydeddus. Gobeithio y gwelir di yn fuan yn rhodio heb help yr un ffon-fagl.

ABERYSTWYTH. — Bydd yn ddiameu yn dda gan bob darllennydd o'r YMOFYNYDD i ddeall fod Mr. Isaac E. Hopkyn, o Drebannos, newydd ennill y radd o B.Sc. ym Mhrifysgol Cymru. Gwyr pawb sydd wedi darllen ein cylchgrawn y blynyddoedd diweddaf yma am ei lwyddiant ym myd cerddoriaeth, ac yn awr wele ef wedi enwogi ei hun mewn cyfeiriad arall. Dymunwn iddo bob llwyddiant eto yn y dyfodol, ac os na chawn ei weled yn ol yma eto, carem gymeryd y cyfleustra hwn i ddiolch iddo yn gyhoeddus am ei gynorthwy caredig ymhob cyfeiriad tra fu yma yn ein plith.

Isaac annwyl, esgynni—o frodir
Efrydiaeth fel mynni ;
Daw'r clod wedi'r caledi,
Be' sy' well na B.Sc. ?
Banos.

Y GRAIG A GELLIONEN. — Dydd Sadwrn, Mehefin 15, cynhaliodd yr Ysgol Sul ei gwyl de ar fynydd Gellionen. Hytrach yn frith fu ei fawrhydi y tywydd ; ond ar waethaf pobpeth, fe gawd gwledd odidog a mwynhad mawr, a daeth yr hwyr lawer yn rhy fuan i ateb y plant.

BU yr wythnos Gorffenaf 1—6 yn *Red Letter Week* yn hanes gweinidogion Cymdeithas South East Wales. Gwahoddwyd hwynt gan y Parch. Miss E. Rosalind Lee, B.A., (gweinidog Glanrhondda, Pentre), i dreulio yr wythnos gyda hi yn ei chartref yn Penmaen, gyda'r amcan o drin gwahanol bynciau y dydd. Teimlwyd er ys llawer dydd gan rai o'r brodyr mai buddiol iawn fyddai rhywbeth fel hyn, ond nid oedd modd i'r syniad gymeryd ffurf faterol a sylweddol. Bu raid cael bonedd-iges i gymeryd y peth mewn llaw, ac wele ! dyna'r peth yn ffaith. Bu y cyfan yn ffafriol i'r anturiaeth—y tywydd yn rhagorol, yr olygfa yn hardd, a'r cwmni yn flasus. Darllenwyd papurau gan y brodyr canlynol : y Parch. P. Moore, B.A., ar "Ein Problemau Enwadol" ; Parch. E. T. Evans ar "Prif Angen ein Henwad" ; Parch. W. J. Phillips ar "Yr Ysgol Sul" ; a'r Parchn. D. G. Rees a W. Priestley Phillips, M.A., ar "Y Broblem Gymdeithasol." Teimlwyd fod yr wythnos a'r cyrddau ar eu hyd wedi bod yn fendithiol dros ben, trwy ddwyn materion pwysig i sylw, dyfnhau yr yspryd cyfeillgar, ac ychwanegu at brofiad a gweledigaeth y rhai fu yn bresenol Teimlwyd ein bod yn ddyledus dros ben i'r foneddiges am ei charedigrwydd a'i haelioni, a hiraeth oedd yng nghalon pob un fod yr wythnos wedi dod i ben mor fuan. Pasiwyd penderfyniad ein bod yn ceisio cael cyfarfod cyffelyb yn y Cwrdd Cwarter nesaf, er mwyn i'r gweinidogion gael mantais i gwrdd a'u gilydd ac i dderbyn o'r bendithion sy'n deilliaw o gydgyfarfyddiad fel hyn. Mae Miss Lee wedi dangos fod y fath beth yn bosibl, a phrofodd yr wythnos yn Gower ddywediad y Salmydd :— "Wele, mor ddaionus ac mor hyfryd yw trigo o frodyr ynghyd !"

Y PARCH. JENKIN LLOYD JONES, D.D., CHICAGO.—Dymunwn longyfarch yn y modd mwyaf gwresog y cyfaill enwog uchod—Cymro twymgalon o gymdogaeth Llandyssul—ar y fraint o gael gorffen deugain mlynedd o wasanaeth fel golygydd "Unity," papur yn gwasanaethu Undodiaid Chicago a'r cylch. Sylwer ar y ffaith—deugain mlynedd fel golygydd, a deugain cyfrol o lenyddiaeth werthfawr, yn cynnwys adolygiad ar un o gyfnodau mwyaf dyddorol Anghydffurfiaeth. Ffurfiant lyfrgell arddercliog o honynt eu hunain. Yn rhifyn "Unity" am Mawrth 7, 1918, cawn grynodeb o gynnwys y deugain cyfrol, gyda hanes prif ddigwyddiadau y cyfnod ; a Dr. Jones, sylwer, yn olygydd drwy'r blynyddau, ac yn dal i fyny y faner bob amser o blaid rhyddid a phob chwareu teg. Hir y

parhao ei nerth a'i iechyd a'i awydd i wasanaethu ei gyff a'i genedl, nid yn unig fel golygydd ond hefyd fel gweinidog da i Iesu Grist.

BARNU CREFYDD DYN.—Gwna Syr Owen Edwards sylw doeth yn y "Cymru" am Mehefin, a chredwn fod angen ei ddysgu ar genedl y Cymry beth bynnag. Fel hyn y dywed: "Ni ddylech farnu crefydd dyn am nad yw yn son am Dduw yn ei ymddiddan cyffredin. Os yw ei ymddiddan yn bur a dyrchafol, gallwch fod yn sicr ei fod yn cymuno a Duw ryw ffordd neu gilydd. Y mae y gair Duw wedi mynd yn air cableddus yn Senedd yr Almaen. Gwell gennyf fi deimlad gwylaidd yr Iddew, yr hwn na fyn ddweyd 'yr enw mawr.'

Y SEREN NEWYDD.—Mae'r seren yn creu cymaint braw a phryder yn mynwesau rhai ag a arferai ofergoeliaeth greu yn y dyddiau gynt. Mae rhai o'r papyrau wedi dweyd fod diwedd y byd i gymeryd lle Mehefin 15. Os gwir hynny ofer yw gwaith ysgrifennydd y llinellau hyn. Beth, tybed, oedd wrth wraidd syniad yr hen Iolo yn y llinellau canlynol:

Dydd dychrynllyd sy'n ymddangos,
Hwn a lysg fel ffwrn o dân;
Dial wedi'r hir ymaros
Yn ysgubo'r byd yn lân;
Duw ni ad ei blant ufuddion,
Ef a'i rhy' mewn uchel fraint,
Saif yn mhlaid ei garedigion,
Daw'n waredwr at ei saint!

Salmau II, 18.

AI GWIR YW?—Swyddog yn y Fyddin sy'n ysgrifennu:—"Credaf ei bod yn bryd i'r personiaid feddwl ychydig yn rhagor am danom ni, y pwr begars yn y Fyddin. Sicr wyf pe'r hanerid y rhai gartref ac y danfonid un hanner i Ffrainc, y gwnant fwy o ddaioni na'r hanner fydd gartref. Cant weled dynion fel y maent. Ymddengys i mi fod rhywbeth maes o le yn y personiaid, oblegid gartref ym mysg dynion cyffredin o bob dosparth, nid oes eisieu'r personiaid, ac nid llawer sy'n mynd i'r Eglwys. Yma yn Ffrainc, nid oes groesaw i neb yn fwy na'r person; a phan y bydd yn cynnal gwasanaeth, nid oes angen ordro *parade*. Awn yn un dorf i'r gwasanaeth, ac nid ydym yn aros i ofyn pa un ai Eglwyswr neu Wesleyad fydd. Yr ydym yn myned ac yn mwynhau'r gwasanaeth. Beth, tybed, fydd y canlyniad ar ol y rhyfel? Ceir gweld y gwrywod a'r benywod yn ymdyrru i'r Eglwys sydd yn cael ei gynnal gan y person sydd wedi bod yn y Ffrynt; tra na fynychir Eglwys y *stay-at-homiad* ond gan ychydig o hen bobl a phlant; ni fydd yno ddim dynion, ond yr ychydig o wyr y Côr fydd dan dâl. Mae'r Eglwys yn colli cyfleustra ardderchog drwy ddal yn rhwymedig wrth ei dynion ieuainc." Cymered eraill yr awgrym at eu hystyriaeth. Anglicaniad sydd yn ysgrifenu.

AMHEUON.—Anffodus yw'r dyn a gwyd fwy o amheuon nag a fedr ostegu. Y bardd Goethe sydd wedi dywedyd:—Peidiwch son wrthyf fi am eich amheuon; mae gennyf fi ddigon o'r rhai hynny fy hunan. Anffodus y'w pregethwr a wna'r amheuon yn fwy amlwg na'r atebion. Yn debyg i hynny y digwyddodd unwaith i'r offeiriad. Yr oedd wedi bod yn pregethu ar fodolaeth Duw, ac wedi ceisio ateb yr amheuon. Wedi myned allan o'r addoliad, dyma'r *compliment* a gafodd—*compliment* tra amheus. Ebe un o'i wrandawyr:—Yr oedd gennych chi bregeth alluog, ond rhaid i mi gyffesu fy mod i yn credu yn Nuw!

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

Modern Handbooks of Religion

Cr. 8vo. 256 pages. Half-a-Crown each net.

Volumes now ready.

Religion as affected by Modern Science and Philosophy. By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

Religion in Social and National Life. By H. D. Roberts.

The New Testament in the Light of Modern Knowledge. By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

Communion of Man with God. By R. Nicol Cross. M.A.

Jesus and Christianity in the Twentieth Century. By Alfred Hall, M.A.

The Revelation of God in Nature and Man. By Edgar Thackray, M.A., Ph.D.

The Divine Element in Art and Literature. By W. L. Schroeder, M.A.

Eternal Life Here and Hereafter. By Sydney H. Mellone, M.A., D.Sc.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C. 2.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s.; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

T. E. Jones & Co.,

— **LLANDYSSUL.** —

Flour Millers - - -

& Provender Millers, - -

Merchants, - - - -

Wholesale Grocers, &c. &c.

The London City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £24,906,432. Paid up Capital .. £5,188,840.

Reserve Fund .. £4,342,826.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1917.

	£	s.	d.
To Capital Paid up, viz :—			
£2 10s. 0d. per Share on 2,075,536 Shares of £12 each ..	5,188,840	0	0
,, Reserve Fund	4,342,826	0	0
,, Dividend payable on 1st February, 1918	350,246	14	0
,, Balance of Profit and Loss Account as below	733,785	5	8
	10,615,697	19	8
,, Current, Deposit & other Accounts	220,551,768	9	5
,, Acceptances on account of Customers	8,826,865	17	6
	£239,994,332	6	7

	£	s.	d.
By Cash in hand (including Gold Coin £7,000,000) and Cash at Bank of England ..	44,110,353	13	10
,, Money at Call and at Short Notice	31,003,560	9	2
,, Investments :—			
War Loans, at cost (of which £408,418 10s. is lodged for Public and other Accounts) and other British Government Securities ..	38,116,534	13	6
Stocks, Guaranteed by the British Government, India Stocks & Indian Railway Debentures	181,789	10	0
British Railway Debenture and Preference Stocks, British Corporation Stocks ..	1,774,673	4	2
Colonial and Foreign Government Stocks & Bonds	660,352	18	0
Sundry Investment	521,463	5	10
,, Bills of Exchange	35,052,991	17	10
	146,421,719	12	4
,, Advances on Current and other Accounts ..	68,510,358	1	9
,, Advances on War Loans	12,645,539	9	0
,, Liabilities of Customers for Acceptances ..	8,826,865	17	6
,, Bank Premises, at Head Office and Branches ..	2,837,210	6	0
,, Belfast Bank Shares :—			
49,688 £12 10 0 Old Shares £2 10 0 paid			
148,204 £12 10 0 New Shares £2 10 0 paid			
Cost £1,225,908 0 0			
Less part Premium on Shares issued .. 473,269 0 0			
	752,639	0	0